# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod y Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **26 Ionawr 2021** |
| **Adroddiad gan:** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Newid Hinsawdd** |

**Penderfyniad a geisir**

Bod y cabinet yn sefydlu Bwrdd Newid Hinsawdd i lywio'r gwaith o sefydlu a gweithredu ar Gynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac yn darparu £58,990 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn cyflogi Rheolwr Project i gydgordio'r gwaith.

**Cefndir**

1. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i ddatgan argyfwng hinsawdd bu i'r Cabinet ffurfio tasglu er mwyn ystyried y camau ymarferol y gellid eu cymryd er mwyn ymateb i'r argyfwng hwnnw.

2. Y bwriad oedd y byddai'r tasglu yn llunio Cynllun Gweithredu ac y byddai'r gwaith hwnnw erbyn hyn wedi cael ei gyflawni.

3. Yn anffodus bu i'r argyfwng Covid darfu ar ein traws ond mae'n bwysig ein bod yn ail afael yn y maes gwaith yma ar fyrder er mwyn sicrhau bod gennym gynllun gweithredu ar waith cyn gynted ag y bo modd.

4. Yn sgil hyn mae yna waith yn mynd ymlaen gan yr adrannau i ystyried beth y gellid ei ymgorffori mewn unrhyw gynllun a'r bwriad yw cychwyn gyda hynny a chynnal gweithdy gyda holl aelodau'r Cyngor i weld a oes yna unrhyw beth wedi cael ei fethu, gyda golwg ar addasu'r ddogfen wrth i ni fynd yn ein blaen.

5. Wrth i'r tasglu ystyried y mater, tra bod adrannau unigol yn llunio'r gweithgareddau y bydd modd iddynt hwy eu hunain eu cyflawni i ymateb i newid hinsawdd, bu iddynt adnabod un agwedd sylfaenol sydd angen ei gyfarch sef yr angen am gydlynydd ar gyfer yr holl broject ac fe wnaed argymhelliad y dylid gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cyllid unwaith ac am byth o £58,990 er mwyn ariannu rheolwr project am gyfnod o 12 mis yn y lle cyntaf. Byddai modd gweld a fyddai angen parhau gyda'r swydd wedi hynny.

6. Y bwriad fyddai cynnig secondiad i swyddog o fewn y Cyngor fyddai â diddordeb yn y maes a gyda'r sgiliau rheoli project angenrheidiol.

7. Yn wyneb yr angen i sicrhau gweithredu traws cyngor a thanlinellu ei bwysigrwydd mae'r tasglu hefyd yn argymell y dylai'r cabinet sefydlu Bwrdd Newid Hinsawdd i lywio'r gwaith fel yr hyn a wnaed yn y maes adfywio a chefnogi pobl. Byddai modd trosglwyddo aelodau'r tasglu i fod yn aelodau cychwynnol y Bwrdd Newid Hinsawdd.

8. **Argymhellir** felly bod y cabinet yn sefydlu Bwrdd Newid Hinsawdd i lywio'r gwaith o sefydlu a gweithredu ar Gynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac yn darparu £58,990 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn cyflogi Rheolwr Project i gydgordio'r gwaith.

---

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Dim sylwadau I'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Pennaeth Cyllid**

Mae cais yma am £58,990 o adnoddau un-tro o Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor. Yn unol a'r drefn arferol, mater i aelodau'r Cabinet yw blaenoriaethu wrth ddyrannu adnoddau o'r Gronfa, sydd wedi'i sefydlu i ariannu ceisiadau sy'n 'gwneud gwahaniaeth'. Cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol yn y Gronfa Trawsffurfio er mwyn ariannu'r swydd / secondiad